




**Mae ein Cynllun Blynyddol
yn cyflwyno ein rhaglen waith
a'n blaenoriaethau o 1 Ebrill
2014 tan 31 Mawrth 2015**





**Ein Gweledigaeth Gorfforaethol 2010–2015:
Byddwn ni'n gweithio gyda phlant
a phobl ifanc yng Nghymru ac ar eu
rhan i gyflawni newidiadau cadarnhaol
a pharhaol yn eu bywydau.**





Ein Nodau

1. Cynyddu dealltwriaeth o hawliau plant a phobl ifanc a chynyddu ymwybyddiaeth o sut gall y Comisiynydd helpu os na fydd pobl yn derbyn eu hawliau.
2. Lleihau anghydraddoldeb a chamwahaniaethu, fel bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle teg mewn bywyd.
3. Parhau i fod yn sefydliad sy'n perfformio ar lefel uchel, gan ddarparu arweiniad sy'n ysbrydoli eraill, fel bod modd i ni weithio mewn partneriaeth i gyflwyno gwahaniaethau cadarnhaol a pharhaol i fywydau a phrofiadau plant a phobl ifanc.
4. Sicrhau bod pawb yn darparu gwasanaethau effeithiol i blant a phobl ifanc, fel eu bod nhw'n cael eu hamddiffyn, ac yn derbyn gwasanaethau a chefnogaeth i fedru bod yn rhan o benderfyniadau am eu bywydau.
5. Gwella agweddau at blant a phobl ifanc fel bod pawb yn eu gwerthfawrogi.
6. Adeiladu sefydliad cryf, hyderus, sy'n ysbrydoli ac sy'n wydn, fel bod ein staff yn gweithio'n effeithiol fel tîm i helpu i wneud plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth genedlaethol.





Ein hamcanion ar gyfer 2014-15

Eleni, ein nod yw:

- 1. Sicrhau bod Awdurdodau Lleol, Llywodraeth Cymru a darparwyr eiriolaeth yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol i ddarparu eiriolaeth i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen.**
- 2. Sicrhau ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i newid polisi a chreu safonau gofynnol, a fydd yn sicrhau bod plant a phobl ifanc sydd mewn unedau cyfeirio disgyblion yn derbyn yr un gefnogaeth addysgol a'u cyfoedion. Bydd materion llesiant, hawliau a'r pethau mae ganddyn nhw hawl i'w derbyn yn ganolog i'r gwaith hwn.**
- 3. Parhau i ymchwilio i'r ddarpariaeth egwylliau byr i blant a phobl ifanc anabl a'u gofalwyr.**
- 4. Hyrwyddo hawliau pobl ifanc sy'n cyrchu Gwasanaethau Iechyd Meddwl i Blant a Phobl Ifanc (CAMHS) drwy gasglu eu barn a'u profiadau i hysbysu a dylanwadu ar Lywodraeth Cymru.**





5. Arddangos y cynnydd a wnaed yn ein Strategaeth Tlodi Plant a chynyddu ymwybyddiaeth o fentrau fel ein Cynllun Llysgenhadon Cymunedol.

6. Ymchwilio i faterion hygrychedd i ddisgyblion mewn ysgolion.

7. Ymdrin â chanfyddiad y cyhoedd o Gymunedau Sipsiwn, Teithwyr a Roma, a'i wella trwy hyrwyddo delweddu a chynnwys cadarnhaol trwy ein hymgyrch See Me Dyma Fi.

8. Annog a herio Llywodraeth Cymru trwy adroddiad blynyddol a seiliwyd ar dystiolaeth, i sicrhau bod dyletswydd sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) i'w gweld mewn canlyniadau deddfwriaeth a pholisi.

9. Galw Llywodraeth Cymru i gyfrif ynghylch cyflawni CCUHP.

10. Sicrhau ein bod ni'n parhau i weithio'n effeithiol wrth bontio i Gomisiynydd Plant Cymru newydd yn 2015.





Ein gwaith

Gwranddo Cynghori Cefnogi Hyrwyddo Dylanwadu



www.complantcymru.org.uk